Eitem Agenda 5 **26 Mawrth 2010** **WNC 12.10**

Safbwyntiau Polisi Coetiroedd i Gymru: **Coetiroedd Cymru - eu maint, eu natur a'u cymeriad**

Pwrpas

1. Cyflwyno i'r Pwyllgor Cenedlaethol DDRAFFT terfynol Safbwynt Polisi coetiroedd Cymru sy'n cefnogi *Coetiroedd i Gymru* ar gyfer sylwadau a chymeradwyaeth.

Cefndir

2. Mae pwrpas a phroses datblygu Safbwyntiau Polisi i gefnogi Coetiroedd i Gymru wedi eu trafod a'u cytuno eisoes. Dangosir rhai o'r prif bwyntiau yn Atodiad 1. Wrth ystyried Safbwyntiau Polisi cynharach, mae'r Pwyllgor wedi darparu cyngor i wneud pwrpas a swyddogaeth y gyfres o Safbwyntiau Polisi yn fwy eglur. Cafodd hyn ei barhau yn yr enghraifft ddiweddaraf hon. Yn ogystal, dylai aelodau fod wedi derbyn enghraifft o Ddatganiad Safbwynt a gytunwyd o'r blaen, ar ffurf cyhoeddiad, sy'n dangos y cysylltiadau a'r gefnogaeth i *Goetiroedd i Gymru*.

3. Mae'r Safbwyntiau Polisi a ganlyn naill ai'n cael eu datblygu neu wedi eu cytuno. Mae camau llywodraethu allweddol wedi eu trefnu ar gyfer y safbwyntiau sy'n weddill trwy gyfrwng fframwaith Rhagolwg Bwrdd Rheoli/Pwyllgor Cenedlaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystod 2010:

- Coetiroedd Cymru - eu maint, eu natur a'u cymeriad; **[cyflwynwyd]**
- Dŵr a Phriddoedd **[cytunwyd Gorffennaf 2009]**
- Bioamrywiaeth;
- Tirwedd, diwylliant a threftadaeth; **[cytunwyd Tachwedd 2009]**
- Datblygiad economaidd a menter;
- Addysg, Dysgu a Sgiliau; **[cytunwyd Tachwedd 2009]**
- Cyfranogiad Cymunedol; **[cytunwyd Medi 2009]**
- Iechyd a lles **[cytunwyd Gorffennaf 2009]**

Cynnydd diweddar a'r Camau Nesaf

4. Y Safbwynt Polisi diweddaraf hwn yw'r mwyaf sylfaenol o'r holl safbwyntiau oherwydd maen ymwneud â'r holl adnodd coetiroedd yng Nghymru. Mae'n ceisio disgrifio a throsglwyddo nodweddion yr adnodd a'i les i'r cyhoedd NAWR ac wedyn mae'n nodi sut mae angen i'r adnodd newid (gan gynnwys helaethu) er mwyn cyflawni'r weledigaeth wrth wraidd *Coetiroedd i Gymru*. Felly, ni ddylai gynnwys unrhyw beth

annisgwyl, oherwydd mae'r holl safbwyntiau a ddatblygwyd wedi'u nodi eisoes yn y strategaeth ei hun. Ond, fel y nodwyd eisoes, mae'r Safbwynt Polisi'n darparu rhagor o fanylion ynglŷn â pham cafodd y safbwyntiau hyn eu mabwysiadu a sut y gellid eu cyflawni dros gyfnod y strategaeth. Mae hyn o gymorth i'r rhai sy'n datblygu rhaglenni corfforaethol.

5. Hyd yma, ni chafwyd unrhyw gydlynu allanol ffurfiol ar y Safbwynt Polisi hwn, ar wahân i'r broses ymgynghori ei hun, a nododd y prif safbwyntiau. Fodd bynnag, trafodwyd y ddogfen yn ddwyochrol â nifer o gysylltau allanol ac mae'n fwriad gwneud hyn yn ffurfiol ar ôl y cyfarfod o'r Pwyllgor Cenedlaethol. Yn ogystal, gwahoddwyd aelodau o'r Bwrdd Rheoli i wneud sylwadau ar y DRAFFT TERFYNOL hwn ac maent wedi argymell i'r Pwyllgor Cenedlaethol ei gymeradwyo.

Goblygiadau Ariannol

6. Bydd fforddiadwyedd yn ei amlygu ei hun mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, rhwng rhaglenni ('Faint') ac yn ail trwy gynllunio busnes ('Pryd'). Cyfrifoldeb y Cynlluniau Corfforaethol / Busnes yw cytuno ar ddyrannu'r adnodd hwn. Fodd bynnag, oherwydd ein hymdrechion i wella'r ymgyfuniad - o bolisi drwodd at gyflawni - mae angen i bawb sy'n ymwneud â phennu polisi neu ymgymryd â'r 'trosiad' corfforaethol gymryd materion adnoddau i ystyriaeth.

Dadansoddiad Risg

7.

Elfen Risg	Math o Risg: Economaidd Enw Da Amg. a Chymdeithasol	Effaith / Tebygolrwydd Sgôr	Sgôr Risg	Rheolaethau
Nad ydym yn cael gwell ymgyfuniad strategol	**Enw Da**	**5 / 3**	**15**	**Datblygu prosesau effeithiol**
Nad yw'r 'allbynnau' yn ddefnyddiol	**Enw Da**	**3 / 4**	**12**	**Datblygu prosesau effeithiol**
Na chaiff yr 'allbynnau' eu defnyddio	**Enw Da**	**4 / 4**	**16**	**Llywodraethu a rheoli pobl yn effeithiol**
Sgôr Risg 0 – 5 Dibwys / 6 – 10 Isel / 11 – 20 Canolig / 21 – 25 Uchel				

Cyfathrebu

8. Cyhoeddir Safbwyntiau Polisi ar wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth a chânt eu defnyddio gan y tîm Polisi wrth symud llawer o'r tasgau a nodir yn yr adrannau 'Agenda ar gyfer Gweithredu', yn ogystal ag ar gyfer datblygiad parhaus Cynllun Gweithredu *Coetiroedd i Gymru*

Argymhelliad

9. Gofynnir i'r Pwyllgor Cenedlaethol wneud sylwadau ar gynnwys DRAFFT TERFYNOL y Safbwynt Polisi hwn a'i gytuno.

Michelle van Velzen a Clive Thomas
Y Tîm Datblygu Polisi a Rhaglenni
Mawrth 2010

Atodiad 1

Agweddau allweddol ar Safbwyntiau Polisi i gefnogi *Coetiroedd i Gymru*:

- Mae'r Safbwyntiau hyn yn arf polisi ar gyfer nodi'r dystiolaeth fanwl a hefyd ar gyfer caniatáu gwneud peth dadansoddiad gofodol strategol (os yw'n berthnasol). Mewn gwirionedd, atodiadau i'r strategaeth ei hunan yw'r rhain, ac maen nhw'n helpu i gysylltu â'r Cynllunio Gweithredu sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r Strategaeth

- Maen nhw'n delio â'r 'pam' ac yn cyflwyno'r 'beth a sut' trwy'r adran 'Agenda ar gyfer Gweithredu'. Maen nhw'n rhan hanfodol o ddatblygu'r sail resymegol ar gyfer ymatebion corfforaethol (rhaglenni) y Comisiwn Coedwigaeth i'r *Coetiroedd i Gymru* ddiwygiedig. Trwy ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y strategaeth, byddwn yn ceisio dylanwadu ar bartneriaid cyflawni eraill i'w defnyddio mewn ffordd debyg. Gan hynny, prif gynulleidfa'r Safbwyntiau Polisi yw tîm Polisi Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â chynulleidfa budd-ddeiliaid polisi / strategaeth/archwilio ehangach.

- Mae gan rai o aelodau'r Panel Ymgynghorol Strategaeth Coetir fewnbwn i'r gwaith penodol ar y Safbwyntiau Polisi, ac mae'r broses ehangach o ddiwygio'r strategaeth hefyd wedi dylanwadu ar eu datblygiad.

- Gan fod y Safbwyntiau Polisi hyn yn gefnogol i'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ddiwygiedig, dylid eu cyflwyno felly.

- Bydd nifer o'r Safbwyntiau Polisi, ynghyd â Rhaglenni Corfforaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru a ddatblygwyd o'r 'Agendâu ar gyfer Gweithredu' o ddiddordeb ehangach yn allanol i fudd-ddeiliaid ac yn teilyngu cynhyrchu cyhoeddiad. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiadau hyn ar wahân i'r Safbwyntiau Polisi a'r Rhaglenni Corfforaethol.